**CCJS08 Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Y Pwyllgor Busnes** | **Business Committee**

**Rhannu swydd cadeirydd Pwyllgor** | **Committee chair job sharing**

Ymateb gan: Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig | Evidence from: Welsh Conservative Group

Mae'r ddogfen hon yn nodi ymateb Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn Senedd Cymru mewn perthynas ag agweddau ar ymgynghoriad y Pwyllgor Busnes ar rannu swyddi ran craffu a'r heriau ymarferol sy'n gysylltiedig â chyflwyno rolau lle mae'r swyddi'n cael eu rhannu.pwyllgorau.

**Egwyddorion cyffredinol**

Nid yw Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi'r egwyddor o rannu swydd ar gyfer rôl Cadeirydd Pwyllgor oherwydd yr effaith andwyol y bydd trefniant o'r fath yn ei chael ar gapasiti Senedd Cymru o ran craffu a'r heriau ymarferol sy'n gysylltiedig â chyflwyno rolau lle mae'r swyddi'n cael eu rhannu.

Nod penodol agenda diwygio'r Senedd yw gwella craffu er mwyn sicrhau gwell penderfyniadau polisi a deddfwriaeth, a hynny drwy ryddhau capasiti i Aelodau o Senedd Cymru fod yn aelodau meinciau cefn a deddfwyr proffesiynol sy'n dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Byddai cyflwyno trefniant rhannu swydd yn tanseilio'r nod hwn yn llwyr drwy greu'r posibilrwydd o gynyddu nifer yr Aelodau â chyfrifoldebau ychwanegol, i'r graddau y byddai mewn gwirionedd yn lleihau cyfran yr Aelodau a fyddai ar gael i fod yn aelodau meinciau cefn 'proffesiynol'.

Mae Cadeiryddion Pwyllgorau yn cyflawni rôl bwysig yn y Senedd ac mae'n anodd gweld sut y byddai trefniadau rhannu swydd yn gallu gweithio pe bai anghytundebau'n codi rhwng yr unigolion a fyddai'n dal swyddi o'r fath. Byddai anghytundebau o'r fath yn debygol o effeithio'n andwyol ar waith y Pwyllgorau, arafu'r broses o wneud penderfyniadau, a chodi heriau i Staff y Comisiwn sy'n gyfrifol am gefnogi gwaith y Pwyllgorau. Hefyd, mae'n anodd gweld sut y gellid datrys anghydfodau yn achos pleidleisiau mewn pwyllgor.

Mae'r Grŵp yn pryderu y byddai rhannu swyddi yn cynyddu llwyth gwaith Clercod y Pwyllgorau, gan y byddai dau unigolyn iddynt ymgynghori â nhw, eu

briffio a rhedeg ar eu hôl i gael cyfarwyddiadau, ymatebion ac arweiniad, yn hytrach nag un.

Pe bai rhannu swydd yn mynd rhagddo – a’n barn ni yw na ddylai – barn Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yw y dylid ei gyfyngu i dri o Bwyllgorau’r Senedd ar y mwyaf, er mwyn lleihau’r effaith andwyol ar nifer yr Aelodau mewn rolau ar y meinciau cefn. At hynny, dylai fod yn fater i’r grwpiau gwleidyddol benderfynu drostynt eu hunain a fyddent am wneud cais am y cyfle i enwebu ymgeiswyr ar gyfer rolau Cadeiryddion sy’n rhannu swydd.

**Terminoleg**

Ni fydd y termau “rhannu swydd cadeirydd pwyllgor” a “rhannu rôl cadeirydd pwyllgor” yn rhai hawdd i’r cyhoedd eu deall. Mae’r Grŵp o’r farn bod Cyd-Gadeiryddion Pwyllgorau yn derm gwell. Wedi dweud hynny, byddai unrhyw rolau newydd yn wahanol i’r rhai sydd eisoes yn dwyn y teitl hwnnw yn y Chweched Senedd ar gyfer y Pwyllgor Ymchwiliad Covid-19.

Gellid osgoi unrhyw ddryswch o ran terminoleg drwy gael disgrifiadau rôl clir yn y Seithfed

Senedd.

**Presenoldeb a dirprwyo**

Pe bai rhannu swydd yn digwydd, mae’r Grŵp o’r farn mai dim ond un o’r Cadeiryddion sy’n rhannu’r swydd ddylai fod mewn cyfarfod ar unrhyw adeg. Mae hyn er mwyn osgoi rhoi mantais i'r blaid wleidyddol sydd â chadeiryddiaeth y Pwyllgor hwnnw mewn trafodaethau ac yn nhrafodion y pwyllgor.

Pe na bai’r naill na'r llall o'r Cadeiryddion sy’n rhannu’r swydd ar gael, dylid caniatáu dirprwyo.

**Eithriadau**

Mae'r Grŵp yn gwrthwynebu trefniadau rhannu swydd ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau.

**Protocol**

Os caiff trefniadau rhannu swydd eu cyflwyno, dylid cytuno ar brotocolau ar gyfer rhannu swydd cyn y Seithfed Senedd. Dylai’r rhain gynnwys:

•Sut bydd gwaith yn cael ei rannu

•Datrys anghydfodau

•Presenoldeb yng nghyfarfodydd y pwyllgor

•Dirprwyon

•Hawliau pleidleisio

•Cynrychioli'r pwyllgor i'r cyhoedd ac yn y cyfryngau

•Sut i ymgysylltu â Chlercod Pwyllgorau ac Aelodau

**Cyflwyno cynnig**

Os caiff trefniadau rhannu swydd eu cyflwyno, dylai fod ar sail prawf ar gyfer y Seithfed Senedd yn unig, a dylai fod yn ddarostyngedig i adolygiad gan y Pwyllgor Busnes.